



Canllaw ar gofnodi ac adrodd ar ddamweiniau / clefydau

i ddarpariaeth dan contract

Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif:240/2018
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018
Yn disodli dogfen ganllawiau rhif: 216/2017

Canllaw ar gofnodi ac adrodd ar ddamweiniau/clefydau i ddarpariaeth dan gontract

Cynulleidfa	Darparwyr dysgu seiliedig ar waith ('darparwyr') dan gontract gan Lywodraeth Cymru
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllaw i ddarparwyr ar gofnodi ac adrodd ar ddamweiniau/clefydau a digwyddiadau peryglus sy'n digwydd i ddysgwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
Camau i'w cymryd	Dylid adrodd ar bob digwyddiad sy'n digwydd i ddysgwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n adroddadwy o ran maen prawf 3 y ddogfen hon, i Lywodraeth Cymru.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Stephen Jones Llywodraeth Cymru Tŷ'r Afon Heol Bedwas Bedwas Caerffili CF83 8WT Ffôn: 03000 253911 e--bost: pa.gaf@llyw.cymru
Copiau ychwanegol	Gellir cael y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://beta.llyw.cymru/cofnodi-rhoi-gwybod-am-ddamweiniauclefydau-canllawiau-ar-gyfer-darparwyr-dysgun-seiliedig-ar-waith
Dogfennau cysylltiedig	Cod Ymarfer Iechyd a Diogelwch Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth dan gontract Mae'r ddogfen hon yn disodli'r Canllawiau i ddarpariaeth dan gontract ar gofnodi ac adrodd am ddamweiniau/afiechydon (Mehefin 2015).

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Hysbysu am ddamwain/clefyd/digwyddiad peryglus	3
3.	Hysbysu am anafiadau, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus adroddadwy	4
4	Cwblhau'r HS001	4
5.	Cwblhau'r AF1	5
5.1	(1) Manylion y darparwr ac, os yw'n berthnasol, Isgontractwr y Darparwr a/neu gyflogwr/lleoliad	5
5.2	(2) Manylion pwy bynnag a anafwyd a'r ddarpariaeth	5
5.3	(3) Dosbarthiad ac amgylchiadau'r ddamwain/clefyd	5
5.4	(3a) Disgrifiad o'r amgylchiadau	6
5.5	(3b) Rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau	8
5.6	(4) Achos y ddamwain/clefyd ac atal ailadrodd	9
5.7	(5) Beth oedd natur yr anallu/anaf?	12
5.8	(6) Faint o rannau o'r corff a anafwyd, neu sy'n teimlo effaith yr afiechyd?	13
5.9	(7) Dogfennau ategol	13
5.10	(8) Rheoli iechyd a diogelwch gan y darparwr	13
6.	Ar ôl cwblhau	13

1. Cyflwyniad

Lluniwyd y canllaw hwn i gynorthwyo darparwyr i gofnodi ac adrodd ar ddamweiniau, clefydau a digwyddiadau peryglus sy'n digwydd i ddysgwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae newidiadau i'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) wedi cael gwared â nifer o gategorïau anafiadau, ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod angen cael adroddiad ar y categorïau hyn, gan mai proses adrodd HS001/AF1 yw'r unig fodd o gael gwybodaeth o'r fath.

Dylid adrodd i Lywodraeth Cymru ar bob damwain, clefyd sy'n ymwneud â'r gwaith a digwyddiad peryglus a gaiff dysgwr. Bydd y canllaw canlynol yn diffinio'r hyn y dylid ac na ddylid eu hadrodd, ond os ydych yn ansicr neu os oes gennych gwestiynau ynghylch y gofynion adrodd, cysylltwch â – gweler y dudalen flaenorol am wybodaeth gyswllt.

Er mwyn sicrhau cysondeb o ran cofnodi ac adrodd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dogfennau y dylid eu llenwi pan fydd y darparwr yn gweld neu yn cael ei hysbysu o ddamwain, clefyd neu ddigwyddiad peryglus i ddysgwr, i adrodd ar y canfyddiadau.

Dyma'r dogfennau:

- Cofnodi damwain/clefyd neu ddigwyddiad peryglus = HS001
- Gwybodaeth am ddamwain/clefyd – AF1

Dylid defnyddio'r HS001 i wneud adroddiad cychwynnol ar y ddamwain/clefyd i Lywodraeth Cymru. Mae'r AF1 yn cofnodi gwybodaeth ystadegol sylfaenol am y dysgwr, y darparwr, y cyflogwr/lleoliad a'r ddamwain/clefyd ac mae hefyd yn fodd o gofnodi amgylchiadau'r digwyddiad.

I ddechrau, bydd y ddogfen ganllaw hon yn egluro'r broses ac yn rhoi manylion ar sut a pham y dylai'r darparwr lenwi'r HS001.

Mae'r ddogfen yn parhau â chwblhau'r AF1. Mae'r adran hon yn darparu canllawiau ac ambell i enghraifft, pan fo'n briodol, sy'n cyfateb i bob un o gwestiynau'r AF1.

Dylai'r darparwr fod yn ymwybodol o ofynion y contract i gofnodi ac adrodd ar ddamweiniau/clefydau fel y nodir yng Nghod Ymarfer Iechyd a Diogelwch Llywodraeth Cymru ar gyfer Darpariaeth dan Contract (Cod).

Dylai'r darparwr hefyd sicrhau bod gan yr unigolyn sy'n cael cofnod o'r ddamwain/clefyd fynediad at y ddogfen ganllaw hon a'r Cod.

Dylid adrodd ar bob damwain, clefyd neu ddigwyddiad peryglus gan ddefnyddio HS001 a lawrlwythwyd a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru trwy'r cyfeiriad e-bost pa.gaf@llyw.cymru

2. Hysbysu am ddamwain/clefyd/digwyddiad peryglus

Pan fydd damwain/digwyddiad peryglus yn digwydd i ddysgwyr neu pan gaiff clefyd (galwedigaethol) sy'n ymwneud â gwaith ei ddiagnosio gan ymarferydd meddygol, dylid adrodd i Lywodraeth Cymru yn ei gylch.

Mae hyn yn berthnasol i ddamweiniau/clefydau/digwyddiadau peryglus i ddysgwyr ar safle'r darparwr/isgcontractwr y darparwr neu gyda chyflogwyr/lleoliadau. Dylai'r darparwr allu dangos ei fod wedi ceisio ei orau i sicrhau bod adroddiadau o'r fath yn cael eu cwblhau mor gyflym â phosibl. Mae'n ofyniad dan y contract bod darparwr yn hysbysu Llywodraeth Cymru o ddamwain/clefyd/digwyddiad peryglus i ddysgwyr o fewn 12 niwrnod i'r digwyddiad/diagnosis gan ymarferydd meddygol.

Gwneir yr hysbysiad trwy lenwi a chyflwyno ffurflen HS001. Dylid lawrlwytho'r ddogfen hon o dudalen we Llywodraeth Cymru <https://beta.llyw.cymru/cofnodi-rhoi-gwybod-am-ddamweiniauclefydau-canllawiau-ar-gyfer-darparwyr-dysgun-seiliedig-ar-waith>.

Bydd yr hysbysiad dim ond yn cael ei dderbyn yr eiliad y bydd Llywodraeth Cymru yn cael y ddogfen gyflawn, trwy e-bost.

Oni ofynnir amdanynt, nid oes gofyniad i ddarparu copiâu o'r cofnodion arfarnu, contract a monitro o ran y cyflogwr/lleoliad, gan fod adran o fewn yr AF1 lle y gall y darparwr gofnodi'r dyddiadau priodol pan gafodd y gweithgareddau hyn eu cynnal.

3. Hysbysu am anafiadau, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus adroddadwy

Nid oes gofyniad i ddiffinio categorï'r ddamwain neu anaf yng ngham yr HS001. Ond, byddai angen i'r darparwr wybod beth sy'n adroddadwy. Mae'r categorïau a nodwyd dan y faner Mawr, yn yr AF1, yn adroddadwy, e.e. Anafiadau i'r Llygaid. Mae anaf mawr i'r llygad yn ymwneud â cholli golwg dros dro neu yn barhaol.

O ran Toriad Esgyrn Mawr: Mae hyn yn ymwneud ag esgyrn a dorrwyd heblaw am esgyrn yn y bysedd, bodiau neu fysedd traed. Mae'r AF1 yn diffinio'r hyn sy'n cyfateb i ysgiad mawr. Mae pob clefyd sy'n ymwneud â galwedigaeth, fel y diagnosiwyd gan ymarferydd meddygol, yn adroddadwy i Lywodraeth Cymru fel digwyddiad mawr.

Categori arall sy'n pennu a ddylid adrodd ar ddamweiniau yw a wnaeth yr anaf, fel y diffiniwyd yn yr AF1, atal y dysgwr rhag gwneud ei waith neu raglen ddysgu arferol am fwy na 7 niwrnod, heb gyfri diwrnod y ddamwain. Mae'r 7 niwrnod yn cynnwys penwythnosau, pa un ai y byddai'r dysgwr wedi bod yn gweithio neu'n dysgu ar y diwrnodau hynny neu beidio. Toriadau esgyrn Bach yw torri esgyrn y bysedd, y bodiau neu'r bysedd traed.

Ni ddylid adrodd ar ddamweiniau sy'n digwydd wrth gymryd rhan mewn chwaraeon, pan na chafodd yr anaf ei achosi gan ddarn o gyfarpar. Hefyd, ni ddylid adrodd ar ddamweiniau sy'n digwydd i ddysgwyr cyn cyrraedd y gwaith neu'r lle dysgu, neu pan fyddant yn gadael ar ddiwedd y diwrnod gwaith/dysgu, a'r tu allan i gyffiniau'r cyflogwr/darparwr.

Dylid adrodd ar bob digwyddiad peryglus a allai fod wedi effeithio ar ddysgwyr i Lywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r HS001 a'r AF1.

4. Cwblhau'r HS001

Gwybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i lenwi'r HS001 a dylid gallu dod o hyd iddi'n hawdd. Ar wahân i ychydig o fanylion cryno am y ddamwain/clefyd/digwyddiad peryglus, math o anaf ac ati, dylid gallu dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen ar system reoli gwybodaeth y darparwr. Dylai'r darparwr fod yn ymwybodol y gallai adroddiadau cychwynnol - waeth pa mor gryno ydynt - amrywio o'r cofnod dilynol. Mae hyn yn digwydd am lawer o resymau, ond ni ddylai'r darparwr boeni am unrhyw wahaniaethau yn yr adroddiad cychwynnol. Darparwch ddigon o wybodaeth i wybod bod damwain, clefyd neu ddigwyddiad peryglus wedi digwydd.

Mae adran olaf yr HS001 yn gofyn am 'ddiwrnod ymweld arfaethedig'. Ni ddylai ymweliad ddigwydd cyn cyflwyno'r ddogfen hon i Lywodraeth Cymru. Pan wyddys fod damwain/digwyddiad peryglus wedi digwydd neu fod clefyd wedi'i ddiagnosisio, yna dylid llenwi'r HS001 ar unwaith.

Er gwybodaeth, mae un ddogfen arall, sef yr AF3, a anfonir at ddysgwyr â statws di-waith i'w hanfon yn ôl. Caiff y dysgwr di-waith yr AF3 yn syth o Lywodraeth Cymru wedi i'r darparwr gyflwyno'r HS001. Mae'r ddogfen hon yn gofyn i'r dysgwr adrodd ar y ddamwain/clefyd neu ddigwyddiad peryglus yn ei eiriau ei hun.

5. Cwblhau'r AF1

Er mwyn gallu cyfeirio'n hawdd, mae pob isadran yn cyfateb i gwestiwn neu elfen o'r ddogfen AF1. Felly, mae pob rhif mewn cromfachau yn ymwneud â'r rhif cwestiwn cyfatebol ar yr AF1.

O ran digwyddiad peryglus, dylid cysylltu â Rheolwr Iechyd a Diogelwch Llywodraeth Cymru i gael gwybod sut i adrodd ar y digwyddiad. Yn gyffredinol, byddai digwyddiad peryglus yn cael ei adrodd gan ddefnyddio'r AF1, fel pe bai'n ddamwain. Fodd bynnag, dylid trafod hyn â Llywodraeth Cymru cyn ei llenwi.

5.1 (1) Manylion y darparwr ac, os yw'n berthnasol, isgontractwr y darparwr a/neu gyflogwr/lleoliad

Dylai'r darparwr lenwi'r blychau perthnasol. Er enghraifft, os yw dysgwr yn cael damwain wrth weithio i gyflogwr/lleoliad dan gcontract i isgontractwr y darparwr, yna dylid llenwi'r tri blwch.

O ran manylion y darparwr, cynghorir mai rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost yr unigolyn darparu sy'n cofnodi'r wybodaeth y dylid eu nodi er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol.

Yn ogystal â manylion cyfeiriad y sefydliad yn yr adran ar gyfer cyflogwr/lleoliad, gofynnir i'r darparwr nodi 'math' o fusnes y cyflogwr/lleoliad. Enghraifft o hyn fyddai 'gwneuthurwr poteli plastig'. Dylid ychwanegu'r wybodaeth hon yn y blwch ar ôl enw'r cyflogwr/lleoliad.

5.2 (2) Manylion pwy bynnag a anafwyd a'r ddarpariaeth

Gellir dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn system reoli gwybodaeth y darparwr a/neu yn y dogfennau a lenwyd pan ddechreuodd y dysgwr ar ei raglen ddysgu.

Ceir dau flwch dyddiad i nodi pryd y dechreuodd y dysgwr gyda'r darparwr a blwch i nodi pryd y dechreuodd y dysgwr gyda chyflogwr/lleoliad. Dylai'r dyddiad hwn nodi pryd y dechreuwyd y dysgu wedi'i ariannu o ran y dysgwr gyda'r cyflogwr/lleoliad.

5.3 (3) Dosbarthiad ac amgylchiadau'r ddamwain/clefyd

Rhennir yr adran hon yn dair rhan. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys ystadegau sy'n ymwneud â'r ddamwain, gan ddechrau gyda 'math o adroddiad'.

Dim ond tic ar gyfer Do neu Naddo sydd angen ei roi ar gyfer y cwestiwn 'A hysbyswyd yr AGID/Canolfan Gyswllt Damweiniau ynghylch y ddamwain/clefyd?' Dylai darparwyr wneud pob ymdrech rhesymol i fodloni eu hunain bod adroddiad wedi'i wneud yn briodol.

O ran yr unigolion a gyfwelir, dylai cofnod yr ymchwiliad gynnwys cynifer â phosibl o bobl berthnasol. Yn ogystal â'r dysgwr, gall unigolion eraill y gellir cyfweld â nhw

gynnwys tystion (naill ai tystion i'r ddamwain neu dystion a oedd yn y lle yn fuan ar ôl y ddamwain) megis goruchwylwyr, rheolwyr, a swyddogion asesu/monitro y darparwr neu isgcontractwr y darparwr, ac ati. Dylid nodi swydd yr unigolyn ar bwys ei enw, e.e. John Doe - goruchwylwr y dysgwr.

Dylai 'Rhowch ddisgrifiad o'r eiddo ac adeiladau/lleoliad...' nodi lle'r oedd y dysgwr yn gweithio. Er enghraifft, os yw'r dysgwr yn gweithio mewn swyddfa cwmni gweithgynhyrchu ond bod y digwyddiad wedi digwydd ar lwybr o fewn yr adran weithgynhyrchu, yna dylid cofnodi'r adran weithgynhyrchu. Er enghraifft: Digwyddodd y ddamwain ar lwybr o fewn y brif ffatri.

O ran gwaith neu weithgaredd dysgwr, a'r cwestiwn 'Pa waith neu weithgaredd oedd y Dysgwr yn ei wneud ar adeg y ddamwain?', mae'r cwestiwn yn gofyn am y swydd/tasg a oedd yn cael ei gwneud a arweiniodd wedyn at y ddamwain. Er enghraifft, os gwnaeth dysgwr faglu dros rwystr ar lwybr wrth ddod â deunydd swyddfa yn ôl o'r storfa, yna'r gwaith neu'r gweithgaredd fyddai 'cael deunydd swyddfa o'r storfa'. Nid yw baglu dros y rhwystr yn weithgarwch na cherdded ar hyd y llwybr gyda'r deunydd swyddfa.

Mae'n bosibl cofnodi gweithgaredd a arweiniodd at glefyd, megis cyswllt aml â sylweddau permio neu liwio gwallt sy'n arwain at ddermatitis, ond mae lle yn ddiweddarach yn y ddogfen i nodi'r wybodaeth hon.

Gellir dehongli'r cwestiwn 'A oedd y dysgwr dan oruchwyliaeth ar y pryd' mewn nifer o ffyrdd. Gall dysgwr fod dan oruchwyliaeth, ond nid oes rhaid i'r goruchwylwr fod yn y lleoliad ar y pryd o reidrwydd – mae hyn yn dibynnu ar feini prawf megis lefel y risg, pa mor gymwys yw'r dysgwr, ac ati. Nid yw nodi nad oedd goruchwyliaeth yn golygu bod problem. Gellir nodi'r rheswm yn y lle a ddarperir ar gyfer sylwadau.

'A gafodd y Dysgwr wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant o ran y gwaith/gweithgaredd?' Yn gyffredinol, mae hyn yn ymwneud â gwaith/gweithgareddau corfforol megis gweithio â chyfarpar neu ddilyn gweithdrefn – lle y byddai'n rhaid bod y dysgwr wedi'i addysgu ac wedi'i wneud yn ymwybodol o agweddau ar ddefnyddio neu gamau yr oedd angen eu cymryd i weithio'n ddiogel.

O ran y cwestiwn 'A oedd y Dysgwr yn gwisgo/defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol ar adeg y ddamwain (dros gyfnod o ran clefyd)?' mae'r ateb yn ddatganiad o'r ffeithiau. Fodd bynnag, os nodwyd 'Amherthnasol', dylai'r ymchwilydd fod yn ymwybodol fod hyn yn golygu nad oedd unrhyw gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer y dasg/tasgau ac nid ei fod yn amherthnasol gan nad oedd y dysgwr yn ei ddefnyddio/gwisgo.

5.4 (3a) Disgrifiad o'r amgylchiadau

Mae angen yr adran hon er mwyn darparu 'cipolwg' o'r gweithgaredd a arweiniodd at y digwyddiad neu'r clefyd, yr anaf neu'r amhariad corfforol a gafwyd a'r driniaeth a gafwyd. Efallai bydd y darparwr yn dymuno darparu ffotograffau er cymorth yn yr adran hon. Byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddatganiad i gyd-fynd ag unrhyw ffotograffau digidol, sy'n nodi nad ydynt wedi'u newid mewn unrhyw fodd.

Rhaid ystyried llawer o bethau er mwyn cael y wybodaeth briodol ar gyfer yr adran hon. Yr ystyriaeth bwysicaf yw mai disgrifiad ffeithiol yw hwn. Fel arfer, mae'r unigolyn darparu sy'n cofnodi'r wybodaeth am y digwyddiad yn dibynnu ar ddatganiadau a roddir gan bobl berthnasol yn ystod cyfweiliadau.

Pan fydd y cofnod yn cynnwys datganiadau sy'n gwrthddweud ei gilydd, yna caiff y datganiadau amrywiol eu gwahanu yn y disgrifiad gan frawddegau sy'n dechrau gyda phethau megis, 'nododd y dysgwr' a 'nododd y goruchwyliwr', ac ati. Ni ddylid rhoi barn ar bwy sy'n dweud y gwir gan y gallai pob parti sy'n cyfleu yr hyn a welwyd/brofwyd ganddo gredu bod ei ddehongliad o'r digwyddiadau yn gywir.

Os digwyddodd y ddamwain o ganlyniad i ddefnyddio darn o gyfarpar, yna caiff y cyfarpar hwnnw ei ddisgrifio, gan gynnwys pethau megis amddiffynwyr a mecanweithiau stopio, os yw'n briodol.

A oedd y dysgwr yn gymwys i wneud yr hyn yr oedd yn ei wneud ar y pryd? A oedd dan oruchwyliaeth ac a oedd hynny ar y lefel ddisgwyliedig?

O ran clefydau: A oedd gan y dysgwr duedd tuag at glefyd o'r fath neu a oedd yn agored i glefyd o'r fath oherwydd cyflwr meddygol, e.e. yn dueddol o gael ecsema – dermatitis. O ran clefyd feirysol neu facterol, a ddaethpwyd o hyd i'r ffynhonnell?

O ran damweiniau sy'n digwydd y tu allan: sut dywydd oedd hi? O ran damweiniau y tu mewn, mewn lleoedd megis atigau/isloriau ac ati, codir cwestiynau ynghylch lefel y golau a oedd ar gael, e.e. Roedd saer coed dan hyfforddiant yn trwsio trawst nenfwd mewn atig a llithrodd. Codir y cwestiynau: A oedd yr atig yn gwbl gaeedig? A oedd digon o olau, naturiol neu artiffisial? A oedd y dysgwr yn gweithio ar ysgol?

O ran damweiniau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, gallai fod achos dros nodi rhyw'r anifail a'i gymeriad cyffredinol neu gymeriad yr anifail pan ddigwyddodd y ddamwain. Mae anifeiliaid yn ymddwyn yn wahanol pan fyddant ar fin bwyta, yn enwedig pan fyddant yn agos at nifer o anifeiliaid eraill a fyddai hefyd yn ymladd am y bwyd. Weithiau, bydd anifeiliaid yn wyladwrus ac yn oramddiffynnol pan fyddant gyda'u cenawon. Mae cymeriad anifail hefyd yn amrywio pan fydd yn mofyn anifail o'r rhyw arall.

Fel yr awgryma'r uchod, nid oes rhestr derfynol o ystyriaethau. Mae angen gofyn cwestiynau. Weithiau, mae cwestiynau'n codi rhagor o gwestiynau a thrwy hyn, ceir disgrifiad manwl, clir, os nad hollol gywir, o'r ddamwain o bryd i'w gilydd.

Dyma ddwy enghraifft i gynorthwyo â'r adran hon ymhellach:

Enghraifft 1 (Damwain)

Roedd y dysgwr yn cynorthwyo ei goruchwyliwr yn y broses o dorri darnau mawr o blastig i'w hailgylchu. Roedd y goruchwyliwr yn defnyddio cylchlif fertigol tra'r oedd y dysgwr yn didoli'r darnau i'w torri cyn eu rhoi i'w goruchwyliwr. Nododd y goruchwyliwr fod y llafr yn ddigon da i dorri plastig. Yn ystod y gweithgaredd, dywedodd y goruchwyliwr ei fod yn mynd i'r toiled. Pan oedd yn absennol, cymerodd

y dysgwr ddarn o blastig a dechreuodd ei lifio yn ei hanner gan ddefnyddio'r gylchlif. Wrth i'r llafn fynd i mewn i'r darn, methodd y dysgwr â chael ei bysedd yn ddigon pell a thorrodd y llafn trwy flaen mynegfys ei llaw chwith. Roedd y llawdriniaeth adferol yn cynnwys ailosod yr asgwrn a thynnu'r gewin a niweidiwyd. Roedd y dysgwr wedi'i gwahardd rhag defnyddio'r gylchlif, y wagen fforch godi a'r peiriannau llifanu ac roedd y gwaharddiadau hyn wedi'u cofnodi. Nododd y goruchwyliwr hefyd ei fod wedi dweud wrth y dysgwr nad oedd yn cael defnyddio peiriannau o'r fath tan fyddai ei rhaglen ddysgu yn gofyn iddi eu defnyddio. Cadarnhaodd y dysgwr y gwaharddiad hwn mewn cyfweiliad gan nodi ei bod wedi parhau i weithio er mwyn cynorthwyo'r goruchwyliwr i orffen y dasg yn gyflymach ac i ddangos ei bod yn gallu ei gwneud.

Enghraifft 2 (Clefyd)

Roedd y dysgwr wedi gweithio mewn lleoedd trin gwallt ers sawl blwyddyn. Dechreuodd y dysgwr ddysgu wedi'i ariannu gyda 'Hair Today' ar 02/08/10. Cwblhaodd unedau amrywiol o'i NVQ a gadael i eraill wneud y rhan fwyaf o'r gwaith siampwio a thasgau eraill er mwyn lleihau ei gyswllt â dŵr. Serch hyn, dechreuodd dwylo'r dysgwr fynd yn boenus ac yn goch a dywedwyd wrtho am ymweld â'i feddyg. Cafodd y dysgwr wybod fod ganddo ddermatitis galwedigaethol. Nododd y darparwr fod y meddyg a wnaeth ddiagnosisio'r dermatitis wedi seilio'i ddiagnosis ar y ffaith bod y dysgwr yn gwisgo menig latecs (gyda thalc y tu mewn iddynt).

Enghreifftiau cryno a syml yw'r rhain ond mae'r ddwy wedi'u cyflwyno fel cofnodion gwirioneddol. Dylid cael rhywfaint o gydbwysedd o ran hyd yr adroddiad a hepgor gwybodaeth amherthnasol. Pan na ellir gwneud hyn, dylai'r adran hon fod mor hir ag sydd angen iddi fod. Mae'r AF1 dim ond yn darparu tudalen 3 i gofnodi amgylchiadau'r ddamwain/clefyd. Os oes angen mwy o le ar y darparwr, gellir atodi mwy o dudalennau – gan nodi bod angen tudalen arall ar waelod tudalen 3 a marcio'r dudalen ychwanegol fel [enw'r dysgwr] tudalen 3a (tudalen 3b ac ati, fel y bo angen).

Gall ffotograffau neu luniau syml i nodi pellter peiriant neu fesuriadau llwybr o'u cymharu â'r perygl ac ati wella cofnod yn fawr, ond nid oes rhaid ychwanegu'r elfennau hyn. Os yw darparwr yn cynnwys ffotograffau neu luniau syml, gellir atodi'r rhain i'r AF1 a'u nodi fel [enw'r dysgwr] tudalen 3a (3b ac ati, fel y bo angen).

5.5 (3b) Rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau

Mae'r adran hon yn dilyn cwestiynau sylfaenol a darperir ychydig o le i ymhelaethu pan fydd angen.

Mae'r ail gwestiwn yn yr adran hon yn gofyn a yw'r unigolyn darparu sy'n cofnodi'r wybodaeth yn fodlon bod damwain wedi digwydd neu fod y clefyd wedi'i ddiagnosisio gan feddyg. Diben y cwestiwn hwn yw cadarnhau a oedd hwn yn ddamwain/clefyd adroddadwy neu beidio.

Mae'r tri chwestiwn arall yn rhoi cyfle i'r ymchwilydd gynnwys damweiniau sy'n digwydd y tu allan i oriau mynychu cytunedig, a oedd y clefyd yn ymwneud â gweithgaredd a wnaed y tu allan i'r gwaith neu a oedd y dysgwr yn gweithredu heb awdurdod. Mae digon o le i roi sylwadau os atebir NA i un o'r cwestiynau.

Mae'r cwestiwn 'A gofnodwyd y ddamwain/clefyd?' yn gofyn a gafodd ei gofnodi yn y llyfr damweiniau (dylid hefyd cofnodi clefydau yn y llyfr damweiniau). Os digwyddodd y ddamwain/clefyd yng nghanolfan ddysgu'r darparwr/sgontractwr y darparwr neu os yw'n ymwneud â'r lle hwn, caiff llyfr damweiniau'r ganolfan ei lenwi. Os digwyddodd y ddamwain/clefyd mewn lle cyflogwr/lleoliad, rhaid llenwi llyfr damweiniau'r cyflogwr/lleoliad.

Mae 'A gofnodwyd y ddamwain/clefyd' yn ymwneud ag a gafodd y ddamwain/clefyd ei gofnodi ar-lein neu gyda'r ganolfan gyswllt digwyddiadau/awdurdod gorfodi.

5.6 (4) Achos y ddamwain/clefyd ac atal ailadrodd

Mae llawer o achosion sy'n cyfrannu at ddamwain, o ffactorau ffisegol i reolaeth sylfaenol sefydliad a arweiniodd at fethu â gwirio neu reoli rhywbeth.

Mae'r adran hon yn gofyn i'r unigolyn darparu gofnodi'r wybodaeth sy'n pennu'r ffactorau achosol sy'n ymwneud â'r ddamwain/clefyd, hyd eithaf ei wybodaeth a chan ystyried y wybodaeth a ddaeth i law. Rhoddir rhestr o ffactorau achosol i gynorthwyo'r darparwr, ond gallai fod achosion y tu hwnt i'r rhestr a roddir.

Rhennir y rhestr yn dair rhan, sy'n ymwneud â ffactorau sefydliadol (diffyg yn y system), ffactorau ffisegol (cyflwr y tywydd, amddiffyniadau) a chyfraniad y dysgwr neu unigolyn arall (diffyg canolbwyntio neu chwarae gwirion). Os yw'r darparwr yn pennu mai'r prif ffactor achosol sy'n ymwneud â'r digwyddiad (damwain neu glefyd) yw'r sefydliad, ac na ellir defnyddio'r un o'r pethau ar y rhestr, yna nodir 29 a rhoddir eglurhad oddi tano. Yn yr un modd, os yw'r prif ffactor achosol yn ymwneud â ffactor ffisegol neu ddysgwr, gellir defnyddio naill ai 59 neu 79 yn ôl eu trefn, a rhoi eglurhad.

Mae lle i gofnodi hyd at dri ffactor achosol. Pan fydd mwy nag un achos, gofynnir i'r darparwr gofnodi'r ffactorau achosol yn nhrefn pwysigrwydd i'r ddamwain/clefyd a ddigwyddodd. Nid oes angen nodi tri ffactor achosol. Nid oes chwaith ofyniad ar y darparwr i ddarparu ffactor achosol ar gyfer yr holl grwpiau achosol, megis 'ffactorau sefydliadol'.

Enghraifft:

Pan fydd dysgwr yn anafu ei hun ar ddarn o beiriant, yn fuan ar ôl gweithio arno am y tro cyntaf, ar ôl cael manylion cryno yn unig ar sut i'w weithio, gallai'r prif ffactor achosol fod yn 10 - safon annigonol o hyfforddiant neu gyfarwyddyd. Efallai bydd ail ffactor achosol, sef 11, yn gymwys oherwydd dylai fod wedi bod dan oruchwyliaeth, gan fod y peiriant yn newydd iddo. Ond beth os dylai'r rhan honno o'r peiriant fod wedi'i hamddiffyn - yna, gellid ychwanegu trydydd ffactor achosol, sef 30.

Mae trefn y ffactorau achosol uchod yn dilyn llinyn rhesymu: Roedd y peiriant yn newydd i'r dysgwr a phe bai wedi cael cyfarwyddyd/hyfforddiant priodol, gallai fod wedi osgoi'r rhan honno o'r peiriant. Fodd bynnag, mae pob damwain yn wahanol. Os oedd amddiffyniad ar y rhan honno o'r peiriant fel arfer, mae'n bosibl na fyddai wedi anafu'r dysgwr pe bai'r amddiffyniad wedi'i drwsio neu yn gweithio, felly'r prif

ffactor fyddai ffactor achosol '32 amddiffyniad neu ddiogelwch dyfais: wedi'i waredu neu ei ddisodli'. O safbwynt arall, gellid cwestiynu'r oruchwyliaeth oherwydd dylai'r rhan honno o'r peiriant fod wedi'i hamddiffyn o'r dechrau a dylai'r goruchwylwr fod wedi gwybod hyn.

Nid oes ateb clir i ba ffactor achosol ddylai fynd yn gyntaf yn achos y mwyafrif o ddamweiniau neu glefydau.

Dylai'r darparwr fod yn ymwybodol y gallai damwain/clefyd darddu weithiau o ddiffyg canolbwyntio'r dysgwr. Gallai'r ffactor hwn fod yn ddewis rhy hawdd gan fod achos y tu ôl i ddigwyddiadau o'r fath bron bob amser sy'n fwy na diffyg canolbwyntio, pa un a yw'r achos hwnnw'n ymwneud â safon annigonol o gyfarwyddyd/hyfforddiant neu ryw ffactor sefydliadol neu ffisegol.

Gweler drosodd am restr lawn o ffactorau achosol.

Ffactorau Achosol

Disgrifiad o'r cod

Ffactorau sefydliadol

01	Dim rhagofalon ymarferol rhesymol ar gael
10	Safon annigonol o hyfforddiant neu gyfarwyddyd
11	Goruchwyliaeth annigonol
12	Safon cynnal a chadw annigonol
13	Methiant i ddarparu system caniatâd gweithio
14	Diffyg system caniatâd gweithio
15	Rheolaeth wael o safonau ffisegol
16	System waith annigol ar gyfer cynhyrchiad gwaith arferol
17	System waith annigol ar gyfer gwaith cynnal a chadw
18	System waith annigol ar gyfer gwaith dros dro
19	System reoli traffig annigonol gan gynnwys gwahanu cerbydau a phobl
29	Arall – e.e. cynllunio'r gwaith mewn modd gwael/annigonol.

Ffactorau Ffisegol

30	Dyfeisiau amddiffyn neu ddiogelu: heb eu darparu
31	Dyfeisiau amddiffyn neu ddiogelu: wedi rhoi'r gorau i'w defnyddio
32	Dyfeisiau amddiffyn neu ddiogelu: wedi'u gwaredu a heb eu hamnewid
33	Dyfeisiau amddiffyn neu ddiogelu: diffyg
34	Dyfeisiau amddiffyn neu ddiogelu: annigonol
35	Caledwedd drydanol: heb ei daearu, heb ei hinswleiddio, wedi'i gorlwytho, heb ei gorchuddio, byr (yn cynnwys tanau canlyniadol)
36	Cyfarpar, deunyddiau a pheiriannau diffygiol (yn cynnwys gwaith pibellau) neu ddiffygion mewn offerynnau
37	Agweddau adeileddol neu ffisegol safleoedd, adeiladau gan gynnwys deunyddiau bregus, diogelu ymylon toeon
38	Diffyg gwybodaeth ymarferol
39	Diffyg mewn unrhyw lwyfan gwaith neu weithfan dros dro (nad yw'n 34 uchod) ond yn cynnwys diogelu ymylon
40	Unrhyw nam o ran y fynedfa/allanfa: diffygiol, anaddas
41	Rheolaeth wael o sylweddau gwenwynig (defnyddio, storio neu gludo) neu sylweddau sy'n mygu
42	Rheolaeth wael o sylweddau fflamadwy (defnyddio, storio neu gludo)
43	Safon annigonol o ddylunio neu adeiladu
44	Safon annigonol o waith gosod
45	Goleuadau/gwres/sŵn
46	Pentyrru neu storio gwael, yn cynnwys llwythau neu gyfarpar annigol
47	Cyfarpar diogelu personol (PPE) heb ei ddarparu neu'n ddiffygiol
48	Cyflwr y tywydd
49	Methiant roboteg neu system reoli ar ffo
50	Man agored neu le annigonol i unigolion neu beiriannau
59	Ffactorau ffisegol eraill

Cyfraniad cyflogai/dysgwr neu unigolyn arall

60	Diffyg canolbwyntio
61	Heb ddefnyddio dyfeisiau diogelwch
62	Dyfais amddiffyn neu ddiogelu wedi'i ddarparu ond heb ei defnyddio
63	Defnyddio cyfarpar sy'n amlwg yn ddiffygiol
64	Defnydd amhriodol o gyfarpar, yn cynnwys ymyrryd â chyfarpar neu offer
65	Camddehongli neu fethu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau, yn cynnwys methu ag ynysu perygl
66	Heb ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol sydd ar gael
67	Heb roi'r rhybudd angenrheidiol i eraill
68	Mynd i mewn i sefyllfaoedd peryglus, e.e. manau cyfyng
69	Barn neu gamgymeriad cyflogai/dysgwr
70	Ymosod
71	Chwarae gwirion
72	Gweithio dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
73	Defnyddio dulliau annigol neu beryglus o drin neu godi
74	Teithio neu sefyll mewn modd annigol
75	Tanau bwriadol, byrgleriaeth, fandaliaeth
76	Cyflwr meddygol neu ffisegol pwysig
79	Arall, yn cynnwys gwybodaeth annigonol i nodi'r achos

O ran y camau sydd wedi'u cymryd i atal digwyddiad, os gwnaeth y ddamwain/clefyd ddigwydd mewn canolfan darparwr neu isgontractwr y darparwr, y darparwr ddylai nodi'r camau gweithredu ataliol a chau'r achos. Os digwyddodd y ddamwain/clefyd mewn lle cyflogwr/lleoliad, y cyflogwr/lleoliad sy'n gyfrifol am hyn.

Os yw'r darparwr yn nodi camau unioni o ran y ddamwain/clefyd mewn lle cyflogwr/lleoliad, dylid trosglwyddo'r wybodaeth honno mewn modd a ystyrir yn gyngor.

Pan fydd y camau gweithredu yn cael eu monitro, dylid gwneud hyn fel arfer ar y dyddiad nesaf y disgwylir monitro iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, dylai'r darparwr fod yn ymwybodol y gallai'r ddamwain/clefyd neu ei ddiffyg cysylltiedig ofyn am newid yn amllder y monitro, oherwydd gallai hyn nodi risg uwch na'r hyn a nodwyd gan y ddogfen arfarnu.

5.7 (5) Beth oedd natur yr anallu/anaf?

Mae'r blychau a gwblheir yn yr adran hon yn mynd ar drywydd y math o anaf a ddigwyddodd.

Gweler y canllawiau pellach, sy'n union oddi tano, o ran 'math o ddamwain'.

- Cysylltiad â pheiriannau symudol / deunydd sy'n cael ei beiriannu – Cysylltiad ag ymylon torri neu siafftau sy'n troi ar beiriannau/deunyddiau sy'n cael eu peiriannu, yn cynnwys anafiadau sy'n digwydd yn fynych ar rannau o'r corff wrth ddefnyddio'r pethau hyn ac anafiadau o ganlyniad i ddiffyg amddiffyniadau.
- Taro gan gerbyd symudol – anafiadau i gerddwr mewn man gwaith neu ar dir preifat.
- Anafu wrth drin, codi neu gludo – tynnu, gwrthio, codi, cludo, taflu, symudiad rhydd y corff nad yw'n ymwneud â gwrthrychau.
- Disgyn o uchder – disgyn oddi ar anifeiliaid, adeileddau dros dro neu barhaol, e.e. ysgolion, grisiau, trwy doeon, nenfydau ac agoriadau mewn lloriau, i mewn i gloddfeydd, pyllau, tyllau archwilio a ffosydd.
- Boddi neu fygu – diffyg ocsigen o ganlyniad i foddi mewn hylifau, grawn, tywod ac ati.
- Dod i gysylltiad â thân - wynebu/dod i gysylltiad â thân - nid yw'n cynnwys llosgiadau o ganlyniad i gyffwrdd â metel poeth a sgaldio.
- Dod i gysylltiad â ffrwydrad - wynebu/dod i gysylltiad â thân - nid yw'n cynnwys llosgiadau o ganlyniad i gyffwrdd â metel poeth a sgaldio.
- Cysylltiad â thrydan/dadwefriad trydanol - wynebu neu ddod i gysylltiad â thrydan.
- Taro gan bethau'n symud, yn disgyn neu'n hedfan – symudiad gwrthrych (nad yw'n gerbyd nac yn anifail), e.e. torri bys â chylllell, bwrw bawd â morthwyl, gwrthrychau sy'n disgyn, cael ei daro yn y llygad gan wrthrych sy'n hedfan, llwch, ac ati.
- Taro yn erbyn rhywbeth sefydlog/llonydd – sefyll ar/taro yn erbyn gwrthrychau llonydd a sefydlog, pan fo'r unigolyn yn gwneud y rhan fwyaf o'r symud, yn hytrach na'r gwrthrych.
- Cam gwag, baglad neu ddisgyn ar yr un lefel – pan fydd unigolyn yn syrthio i'r llawr, daear ac ati ar yr un lefel.
- Dal gan rywbeth sy'n cwmpo/yn dymchwel – wedi'i ddal neu yn gaeth o fewn, o dan neu rhwng deunyddiau sy'n cwmpo.

- Dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol – mewnanadlu, amlyncu, amsugno, llosgiadau cemegol, llid a “fflach weldiwr”. Cyswllt corfforol â sylweddau poeth iawn neu oer iawn.
- Anafu gan anifail - anaf o ganlyniad uniongyrchol i fod mewn cysylltiad ag anifeiliaid. Nid yw’n cynnwys syrthio oddi ar geffyl neu ddamweiniau pan gaiff anifail ei fwrw gan gerbyd a’r ergyd yn arwain at anaf personol.
- Damweiniau traffig y ffyrdd - anafiadau a achosir gan gerbydau sy’n symud ar ffyrdd cyhoeddus. Mae’n cynnwys anafiadau pan fydd dysgwyr yn gweithio ar ffordd gyhoeddus, neu ar ei phwys (gan gynnwys llwytho neu ddadlwytho cerbydau).
- Ymosodiad - corfforol a meddyliol, e.e. bygwth â dryll tân.
- Chwarae gwirion – gweithgaredd corfforol neu ymddygiad heb awdurdod gan y dysgwr neu eraill a achosodd niwed i’r dysgwr.

5.8 (6) Faint o rannau o’r corff a anafwyd, neu sy’n teimlo effaith yr afiechyd?

Mae’r adran hon yn egluro’i hun i raddau. Fodd bynnag, gallai ‘pa ran o’r corff anafwyd / effeithiwyd arni yn fwyaf difrifol?’ achosi problem. Rhoddir ochr chwith ac ochr dde, ac mae’n bosibl nad yw’r anaf yn un o’r rhain, megis anaf i’r trwyn neu i’r fertebra. Os nad oedd yr anaf ar yr ochr chwith na’r ochr dde, gadewch hyn yn wag.

5.9 (7) Dogfennau ategol

Mae hyn ond yn berthnasol pan fydd dysgwr yn cael damwain/clefyd mewn lle cyflogwr/lleoliad. Er llenwi’r ffurflen, gall Llywodraeth Cymru ofyn am gopi ffisegol o’r dogfennau, hyd yn oed os yw’r darparwr wedi llenwi’r holl flychau.

5.10 (8) Rheoli iechyd a Diogelwch gan y Darparwr

Trwy nodi ‘DO’ yn yr adran hon, bydd y darparwr yn ymrwymo i’r egwyddor o welliant parhaus. Mae’n bosibl na fydd angen diwygio unrhyw beth yn system reoli iechyd a diogelwch y darparwr ei hun, ond dylai unrhyw ddamwain/clefyd, hyd yn oed os nad yw ar safle’r darparwr/isgontractwr y darparwr, gael adolygiad sampl o’r dogfennau a’r systemau sy’n ymwneud â nhw.

O ran yr ail ran, sy’n ymwneud ag oedi cyn ymchwilio, nodwch reswm dros yr oedi.

6. Ar ôl Cwblhau

Dylai’r darparwr sicrhau bod pob rhan berthnasol o’r AF1 wedi’i llenwi a bod tudalennau ychwanegol wedi’u hatodi.